

**Cynnig i ffedereiddio Ysgol Gynradd
Llangain, Ysgol Gynradd Llansteffan
ac Ysgol Gynradd Bancyfelin**

Adroddiad Ymgynghori



sirgar.gov.uk

Cyngor **Sir Gâr**
Carmarthenshire
County Council



Yr Adain Moderneiddio Ysgolion

Sara Griffiths, Rheolwr y Tîm Moderneiddio

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn print bras, mewn Braille, neu ar dâp sain, cysylltwch â'r Adran Addysg a Phlant

E-bost: aaprma@sirgar.gov.uk

Ffôn: 01267 246474

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....1

Crynodeb o'r Sylwadau ddaeth i law ac Ymatebion yr Awdurdod

Lleol3

Ymgynghori â Disgyblion.....6

Opsiynau Eraill7

Crynodeb Gweithredol

Y Cyfnod Ymgynghori

Ar 22 Chwefror 2021 cyhoeddodd Cyngor Sir Caerfyrddin gynigion i:

- Ffedereiddio Ysgol Gynradd Llangain, Ysgol Gynradd Llansteffan ac Ysgol Gynradd Bancyfelin o 1 Medi 2021.

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar 22 Chwefror 2021, yr un pryd â chyhoeddi'r cynigion, a daeth i ben ar 4 Ebrill 2021. Daeth 8 o ymatebion i law (ac eithrio'r ymatebion gafwyd trwy'r ymgynghoriad â disgyblion) mewn ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol.

Yr Ymatebion a Ddaeth i Law		
Arolwg ar-lein	E-bost	Cyfanswm
7	1	8

Rhaid nodi bod pob un o'r 8 o sylwadau wedi dod i law cyn diwedd y cyfnod ymgynghori.

Digwyddiad Ymgynghori

Oherwydd goblygiadau parhaus Coronafeirws, fe'n cynghorwyd i ohirio pob digwyddiad lle'r oedd rhyngweithio rhwng staff, rhieni a'r gymuned ehangach, ac, o ganlyniad cafodd sesiynau galw heibio rhithwir eu cynnal drwy Microsoft Teams.

Cynhaliwyd sesiynau galw heibio ffurfiol yn rhithwir ar **15 a 16 Mawrth 2021 ar gyfer Llywodraethwyr, Staff a'r Cyhoedd**. Mynychodd 21 o randdeiliaid y sesiynau galw heibio ymgynghori ffurfiol.

Yr Ymatebion a Ddaeth i Law

Paratowyd y cynnig hwn yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer "Proses Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru ar gyfer Cyrff Llywodraethu ac Awdurdodau Addysg Lleol", gyda'r gobaith o gryfhau'r berthynas rhwng y tair ysgol sydd eisoes yn llwyddiannus.

Cefnogol

- Thema 1 – Dim rheswm
- Thema 2 – Strwythur Llywodraethu

Pryderon

- Thema 1 - Ôl-troed Carbon a Lleoliadau Safle

Ddim yn siŵr

- Thema 1 – Dim rheswm
- Thema 2 – Model y Ddarpariaeth

Crynodeb Cyffredinol

Cefnogol	50%	Ddim yn gefnogol	25%	Ddim yn siŵr	25%
----------	-----	------------------	-----	--------------	-----

Gweithdai

Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben ar 4 Ebrill 2021 cynhaliwyd gweithdy i ddadansoddi'r sylwadau a ddaeth i law.

Y Camau Nesaf

Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyflwyno i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Gwasanaethau Plant a fydd yn penderfynu ar y cynnig. Gall benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig â newidiadau. Wrth wneud hynny, bydd yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac unrhyw sylwadau sydd wedi dod i law.

Hysbysiad o'r Penderfyniad

Ar ôl penderfynu ynghylch y cynnig rhoddir gwybod i'r holl bartion sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael, a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

Crynodeb o'r Sylwadau ddaeth i law ac Ymatebion yr Awdurdod Lleol

Rhif y Pwynt	Y Pwynt a Godwyd	Ymateb yr Awdurdod Lleol	Nifer yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn	% yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn
Sylwadau Cefnogol a Gafwyd				
1.	<p>Dim rheswm Nid oedd rhai ymatebwyr wedi rhoi rheswm dros eu cefnogaeth.</p>	Cafodd y gefnogaeth ei nodi.	3	38%
2.	<p>Strwythur Llywodraethu Ystyried newid a lleihau nifer y Llywodraethwyr i ganiatáu cynrychiolaeth decach.</p>	<p>20 o lywodraethwyr ar y mwyaf y gellir eu cael ar ffederasiwn o 3 ysgol gymunedol. Gellid lleihau nifer y llywodraethwyr Awdurdod Lleol achymunedol i 3 yr un (1 fesul dalgylch ysgol) neu hyd yn oed yn llai a gellid lleihau nifer y rhiant-lywodraethwyr i un i bob ysgol. Mae hyn oll yn bosibl yn unol â'r rheoliadau llywodraethu. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl cyfuno categorïau athrawon a llywodraethwyr staff, ac nid oes lwfans ychwaith i gael 3 athro a / neu 3 llywodraethwr staff ar y Corff Llywodraethu newydd, hyd yn oed pe bai'r categorïau eraill yn cael eu lleihau.</p>	1	13%

Pryderon a Godwyd				
1.	Ôl-troed Carbon a Lleoliadau Safle Codwyd pryderon ynghylch ôl troed carbon y pentrefi pe bai'r ysgolion yn cau a chodwyd pryderon ynghylch ble fydd y ffederasiwn yn cael ei leoli.	Y cynnig yw ffedereiddio'r tair ysgol ac ni fydd hyn yn cael unrhyw effaith ar y trefniadau presennol gan gynnwys teithio a thrafnidiaeth. Bydd y tair ysgol yn parhau i weithredu ar eu safle ysgol presennol.	2	25%
Ddim yn siŵr				
1.	Dim rheswm Nid oedd rhai ymatebwyr wedi rhoi rheswm dros eu pryderon.	Nodwyd yr ymateb.	1	13%
2.	Model y Ddarpariaeth Gofynnodd ymatebwyr am eglurhad ynghylch y rhesymau dros ffederasiwn a sut y byddai ffederasiwn yn effeithio ar gyllidebau staffio ac ysgolion.	Drwy lunio ffederasiwn, gall y tair ysgol weithio gyda'i gilydd o dan arweinyddiaeth a rennir i ddefnyddio eu cryfderau i wella safonau ar draws y ffederasiwn a, chyda'i gilydd, ymdrin â meysydd y mae angen eu gwella. Drwy ffedereiddio o dan un corff llywodraethu, gellir gwella yr hinsawdd o ymddiriedaeth, bod yn agored a pharodrwydd i gydweithio sydd eisoes yn bodoli. Nid yw'r ffederasiwn yn effeithio ar y modd y mae cyllideb ysgol unigol yn cael ei chyfrifo - dylai pob ysgol yn y ffederasiwn barhau i dderbyn ei chyllideb ei hun yn seiliedig ar nifer y disgyblion cofrestredig yn yr ysgol ynghyd ag unrhyw ffactorau eraill. Fodd bynnag, bydd modd i'r ysgolion gyfuno neu rannu eu cyllidebau.	1	13%



Ymgynghori â Disgyblion

Ysgolion: Ysgol Gynradd Llangain, Ysgol Gynradd Llansteffan
ac Ysgol Gynradd Bancyfelin

Dyddiad: 25 Mawrth 2021

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad gan: Ymgynghorydd Cymorth Addysg

Y sawl a gafodd eu cyf-weld: Cynrychiolwyr o'r tair Ysgol
(Cynhaliwyd ar-lein oherwydd y coronafeirws)

Beth mae'r plant yn ei hoffi am eu hysgolion unigol:

- *Mae'n agos i'r traeth*
- *Ffrindiau da*
- *Ysgol fach (pawb yn adnabod ei gilydd ac yn cefnogi ei gilydd)*
- *Pawb yn garedig*
- *Mae'r ysgol yn y pentref rwy'n byw ynddo.*
- *Amser chwarae a digon o offer chwarae*
- *Pawb yn gyfeillgar*
- *Hoffi'r athrawon*
- *Digon o le*
- *Llawer o dripiâu (cyn Covid)*

Beth oedd yn dda am ffedereiddio'r 3 ysgol:

- *Athrawon caredig*
- *Mwy o ffrindiau*
- *Mwy o gyfleoedd - chwaraeon, tripiâu, gwaith*
- *Byddwn yn gallu cyfathrebu mwy dros Teams gyda'n gilydd*
- *Adnabod mwy o blant pan awn ni i Fro Myrddin/Ysgol Uwchradd Y Frenhines Elisabeth*
- *Efallai y gallem wneud J2Stars ar draws y 3 ysgol*

Unrhyw bryderon:

- *A fydd yr athrawon yn newid yn ein hysgolion?*
- *Teithio rhwng tair ysgol*

Unrhyw sylwadau eraill?

Ni wnaed sylwadau pellach

Opsiynau Eraill

Yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol, rhoddwyd cyfle i randdeiliaid gyflwyno opsiynau eraill i'w hystyried. Nodir isod yr opsiynau eraill (nad ydynt eisoes wedi'u hystyried yn y ddogfen ymgynghori) sydd wedi dod i law a chânt eu cyflwyno i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol i'w hystyried.

Ffederasiwn Llangain a Llansteffan yn unig	
Manteision	Anfanteision
Y Pennaeth yn teithio llai	Y posibiliad o golli staff profiadol o'r 3 ysgol yn y ffederasiwn anffurfiol presennol
Mwy o amser i'r Pennaeth yn y ddwy ysgol	Staff a disgyblion o'r tair ysgol yn colli cyfleoedd
	Colli arweinyddiaeth o'r ysgol sengl
	Colli cyfle i rannu cyfleusterau

Cyfarfod Cynllun 10 Mlynedd ar gyfer y tair ysgol	
Manteision	Anfanteision
Cyfle i drafod manteision a chyfleoedd	Disgwyliadau afrealistig posibl
Cyfle i lunio gweledigaeth i'r dyfodol	
Cyfle i drafod â swyddogion yr awdurdod lleol.	